# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**2/2/26**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Alwyn Roberts (cadeirydd), Alwyn Jones, Euros Roberts, Beryl Griffiths, Dewi Jones, Heledd Jones, Arwel Jones a Huw Roberts.

**Hefyd yn bresennol:** Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3289 Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd, Alwyn M Roberts ac fe ddymunodd yn dda i'r cyn-gynghorydd Dafydd Roberts sydd wedi derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar.

**3290 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Lis Puw, Rhodri Jones a Llinos Edwards.

**3291 Datganiadau o fuddiant:** Derbyniwyd datganiadau o fuddiant gan y Cyng Heledd Jones a Beryl Griffiths yng nghais cynllunio y Bryn.

**3292 Cofnodion Cyfarfod Ionawr 2026:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3293 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Nodwyd na derbyniwyd ymateb pellach gan Grŵp Cynefin ynglŷn â sylwadau'r cyngor ar y datblygiad ym Maes y Pandy, hyn er bod y clerc wedi cysylltu fwy nag unwaith.

ii. Deffib / Ciosg Cwm Cynllwyd: Nodwyd fod sesiwn hyfforddiant i'r ardalwyr ar y defnydd o'r offer yn cael ei threfnu at Fawrth 4ydd.

iii. Llwybrau Treftadaeth Llanuwchllyn: Adroddwyd fod y grant cychwynnol wedi ei dderbyn, a bod angen gwneud trefniadau i osod y polion. Gwnaed trefniadau i'r Is Bwyllgor gyfarfod ar Chwefror 26ain.

iv. Parcio ger Tŷ'n Ddol: Gofynnwyd i'r Cyng Alan Evans drafod hefo swyddogion Cyngor Gwynedd cyn symud ymlaen i gofrestru'r tir gyda'r Gofrestrfa Tir, ac fe drafodwyd y posibilrwydd o ddymchwel y lloches bws presennol ac ail godi lloches fwy pwrpasol fel rhan o'r cynllun. Nodwyd y bydd angen ymgynghori gyda thrigolion lleol cyn cychwyn ar y gwaith.

v. Fforwm Cymunedau'r Parc Cenedlaethol: Cadarnhawyd y bydd cyfarfod o'r fforwm nos Iau Chwefror 5ed, pryd y bydd y Cyng Alwyn Roberts yn cynrychioli'r cyngor.

vi. Strwythur Gyfreithiol Pwyllgor y Neuadd Bentref: Adroddwyd fod Pwyllgor y neuadd yn ystyried addasu ei strwythur gyfreithiol i fod yn CIO, sef Sefydliad Elusennol Corfforedig a fyddai'n gwarchod buddiannau ymddiriedolwyr y neuadd. Nodwyd y gallai hyn effeithio ar rôl y Cyngor Cymuned fel Ymddiriedolwyr Gwarcheidiol y Neuadd.

**3294 Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y soniodd am y goeden ar ochr y ffordd ger Caergai sydd angen sylw, am y

gwaith o godi ymwybyddiaeth gweinidogion y llywodraeth am yr angen i greu bwlch ar Bont Lliw er mwyn cysylltu Llwybr Tegid â Llwybr Cei, ac am gyflwr lloches bws y Lôn.

Cafwyd trafodaeth hefyd am yr anfodlonrwydd lleol ynglŷn â thenant anaddas yn Fflatiau Maes y Pandy. Adroddodd Alan Evans ei fod wedi bod mewn trafodaethau gyda Adra, Cyngor Gwynedd a'r Heddlu, a'i fod yn cael negeseuon cymysg am gyfrifoldeb am y sefyllfa. Oherwydd hyn fe gytunwyd i gysylltu hefo swyddfa Liz Saville-Roberts er mwyn mynegi anfodlonrwydd am y sefyllfa.

**3295 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. Pwyllgor Datblygu: Nodwyd y bydd y pwyllgor yn cyfarfod ar Chwefror 26ain.
2. Pwyllgor Mynwentydd: Nodwyd y bydd y pwyllgor yn cyfarfod ar Chwefror 16eg i adolygu ffioedd claddu'r fynwent ac i wneud trefniadau ar gyfer gwelliannau yn y fynwent.
3. Bioamrywiaeth: Adroddwyd fod Un Llais Cymru wedi anfon copi o gyflwyniad ar rôl cynghorau lleol mewn gwarchod a datblygu bioamrywiaeth lleol.
4. Nadolig: Dim i'w adrodd.
5. Asedau: Nodwyd fod angen sylw i Loches Bws y Lon, a gwnaed trefniadau i'r pwyllgor gyfarfod ar Fawrth 3ydd, cyn y cyfarfod o'r cyngor llawn.
6. Cyllid: Dim i'w adrodd.

**3296 Materion Ariannol:**
Adroddwyd fod Archwiliad Blynyddol y cyngor am 2024/2025 wedi cael ei gwblhau gan Archwilio Cymru, a bod rhai argymhellion yn yr adroddiad i'w trafod gan Bwyllgor Cyllid y cyngor. Nodwyd fod y Rhybudd Archwiliad wedi ei gyhoeddi ar wefan ac ar hysbysfwrdd y cyngor.
Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cyngor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Cytundeb glanhau y toiledau.
- Nwyddau glanhau y toiledau.
- Torri gwrych y Fynwent Newydd.

Cytunwyd i ystyried ceisiadau am gymorth ariannol yng nghyfarfod mis Mawrth o'r cyngor.
Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Ionawr yn £108.03.
Nodwyd derbyn Grant Gwynedd Ni (Llwybrau Treftadaeth), tâl am ail osod carreg fedd yn y fynwent, a rhodd o £50 tuag at gostau cynnal a chadw'r fynwent.

**3297 Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod y fenter yn parhau i chwilio am denant neu reolwr i'r Eagles, ond fod ymrwymiad i gadw'r dafarn ar agor ar ôl Mawrth 1af.

**3298 Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod lansiad y cynllun trafnidiaeth cymunedol yn cael ei gynnal ar Chwefror 5ed a gofynnwyd i'r Cyng Arwel Ll Jones ac Alwyn Jones i gynrychioli'r cyngor. Anogwyd y cynghorwyr i gwblhau Holiadur Cymhwysedd Digidol Cwmni Pum Plwy Penllyn, er mwyn dangos yr angen am hyfforddiant digidol yn yr ardal.

**3299 Materion cynllunio: Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:**

1. **NP5/71/140A:** Trosi adeilad allanol i greu anecs a gosod gwaith trin carthion Weirglodd Ddu, Llanuwchllyn. LL23 7SU.
2. **NP5/71/145B:** Adeiladu tŷ menter wledig, Craig y Tân, Llanuwchllyn.
3. **NP5/71/83C:** Adeiladu storfa gwartheg a bwydo gyda storfa slyri tanddaearol, Y Bryn, Llanuwchllyn.

Cytunwyd i gefnogi'r tri chais.

**3300 Gohebiaeth:** Nid oedd gohebiaeth i'w drafod.

**3301 Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Nodwyd:

i) Fod dwr y dal i hel ar y ffordd ger Rhyd y Bod.
ii) Fod twrch daear yn creu trafferth ar Gae Chwarae Maes y Pandy.
iii) Fod cwlfert wedi blocio ger Dwrnudon, a thyllau mawr yn y ffordd ger Erw Fron.
iv) Fod arwyddion 40 ar gyrion yn pentref mewn cyflwr gwael.

**3302: Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 3/3/26 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.